SKSCMGS16

Cytuno ar ofynion a pharamedrau ar gyfer allbynnau creadigol yn y diwydiannau creadigol

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chaffael, dadansoddi a dehongli'r briff creadigol a'r wybodaeth berthnasol i adnabod y fframwaith, y gofynion a'r paramedrau cyffredinol ar gyfer eich gwaith a sicrhau bod ganddo'r arddull a'r effaith briodol.

Gellir defnyddio'r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau a dadansoddi gwybodaeth ynghylch y gofynion a'r paramedrau fyddai'n effeithio ar natur a gweithrediad yr allbynnau creadigol
2. egluro a chadarnhau gwybodaeth am ofynion a pharamedrau
3. pennu'r gofynion o ran cysondeb
4. cadarnhau'r arddull gweledol a'r effaith a fwriedir gyda'r gwneuthurwyr penderfyniadau priodol
5. adnabod y priodweddau dymunol o'r wybodaeth a'r manylebau perthnasol
6. caffael cyngor arbenigol pan fo gwaith sydd wedi'i nodi y tu hwnt i'ch arbenigedd eich hun
7. asesu'r allbynnau creadigol, datrysiadau technegol neu dechnegau blaenorol sydd wedi llwyddo mewn amgylchiadau tebyg at eu defnydd
8. llunio manyleb sy'n diwallu anghenion y prosiect
9. cadarnhau bod y gallu i gyflawni'r gwaith yn cydymffurfio gyda chyfyngiadau'r prosiect o ran y gost a'r amser
10. cadarnhau unrhyw newidiadau y gofynnir amdanynt gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u hymgorffori nhw yn y manylebau gofynion
11. adnabod cyfleoedd pellach i ddefnyddio allbynnau creadigol i hybu llwyddiant creadigol a masnachol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr amcanion ar gyfer yr allbwn creadigol a'r bwriadau artistig y mae'n ei ategu
2. sut i fanteisio ar, dadansoddi a dehongli'r briff creadigol
3. pwy sy'n gwneud penderfyniadau a sut i egluro'r gofynion, yr arddull weledol a'r paramedrau iddyn nhw
4. sut i addasu gofynion yn sgil newidiadau gofynnol gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
5. y camau gweithredu pan nad oes modd bodloni'r cais am newid
6. sut mae'r agweddau a'r cyfleoedd yn amrywio i weddu i wahanol gynyrchiadau
7. sut i adnabod effaith gofynion, paramedrau a chynlluniau'r cynhyrchiad ar ddatblygiad allbynnau creadigol
8. y ffynonellau gwybodaeth ar yr allbynnau creadigol a'r datrysiadau technegol presennol
9. galluoedd a chyfyngiadau'r dechnoleg arfaethedig ac sydd ar gael
10. sut i werthuso'r allbynnau creadigol, y datrysiadau technegol a'r datrysiadau cysyniadol presennol ar gyfer y gwaith

SKSCMGS16

Cytuno ar ofynion a pharamedrau ar gyfer allbynnau creadigol yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS16 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Gweithwyr Addysgu Proffesiyno, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | cytuno; cadarnhau; dadansoddi; paramedrau; briff; arddull weledol; effaith arfaethedig; allbwn creadigol; gofynion y cynhyrchiad; diwydiannau creadigol; |